Sut y byddwn ni'n defnyddio eich data i wella'r broses ar gyfer cleifion yn y dyfodol sy'n symud o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau gofal iechyd oedolion – a elwir yn 'Pontio'

Taflen Wybodaeth i Gleifion

Darllenwch y daflen hon yn ofalus. Mae'n esbonio pwy ydym ni, yr hyn rydym yn ei wneud, a sut rydym yn cadw eich data'n gyfrinachol ac yn eich cadw chi'n ddienw.

Mae'r ysbyty neu'r feddygfa hon (neu feddyg teulu) yn cymryd rhan mewn ymchwiliad cyfrinachol i weld lle y gellir gwella gofal ar gyfer pobl ifanc yn y dyfodol sy'n symud o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau gofal iechyd oedolion.

Beth yw NCEPOD?

Sefydliad cenedlaethol yw NCEPOD – sef yr Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Ganlyniadau a Marwolaethau Cleifion – sy'n cynnal ymchwiliadau cyfrinachol er mwyn gwella ansawdd gofal ar gyfer cleifion y dyfodol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, Guernsey, Jersey ac Ynys Manaw. Ers dros 30 mlynedd, rydym wedi cynnal astudiaethau, mewn gwahanol feysydd gofal iechyd, sydd wedi cael effaith wirioneddol ar y ffordd y mae gofal iechyd bellach yn cael ei ddarparu. Mae NCEPOD yn edrych ar feysydd gofal y credwn y gellid eu gwella trwy adolygu'r gofal y mae cleifion wedi'i dderbyn.

Am beth mae'r astudiaeth ar Bontio?

Bydd yr astudiaeth hon yn golygu ein bod yn casglu gwybodaeth cleifion gan bob darparwr gofal iechyd lle mae person ifanc wedi'i weld. Felly, er enghraifft, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i'ch meddygfa a/neu ysbyty am wybodaeth am eich gofal, a bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys â data tua 500 o bobl.

Pa wybodaeth amdanaf fydd yn cael ei chasglu?

I ddechrau, byddwn yn casglu eich rhif GIG/ysbyty, dyddiad geni, rhyw, a chyflwr iechyd.

Os dewisir eich data ar hap i'w cynnwys yn yr astudiaeth, byddwn yn mynd at y clinigwyr sy'n ymwneud â'ch gofal, a gofyn iddynt lenwi holiadur a hefyd anfon copïau atom o rannau o'ch nodiadau achos fel y gallwn ofyn i glinigwyr eraill ddangos i ni lle maen nhw'n meddwl bod cynllunio wedi mynd yn dda a lle y gallai fod wedi'i wella. Pan mae hyn yn digwydd, bydd yr holl ddata a fyddai'n golygu bod modd eich adnabod, fel eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni ac ati, wedi'u dileu o'r hyn y mae'r clinigwyr yn ei weld, felly ni fyddant yn gwybod pwy ydych chi.

A yw fy ngwybodaeth yn ddiogel?

Ydy, mae eich gwybodaeth yn ddiogel. Bydd yr holl ddata a anfonir atom yn electronig yn cael eu diogelu â chyfrinair. Mae mynediad at y wybodaeth a gasglwn yn gyfyngedig i dîm bach NCEPOD. Bydd yr holl wybodaeth bersonol yn y nodiadau achos a gasglwn yn cael ei dileu. Cedwir yr holl ddata mewn swyddfa ddiogel â larwm, naill ai mewn cypyrddau dan glo neu ar gyfrifiaduron diogel.

Beth fydd yn digwydd i'm gwybodaeth?

- Ni fyddwn **fyth** yn rhannu gwybodaeth sy'n golygu bod modd eich adnabod ag unrhyw sefydliadau eraill am unrhyw reswm ac eithrio cysylltu setiau data â phartneriaid cymeradwy

- Bydd holl ddata cleifion, gan gynnwys nodiadau achos, yn cael eu gwaredu'n ddiogel ar ddiwedd yr astudiaeth
- Ni fydd eich enw **fyth** yn ymddangos mewn unrhyw gyhoeddiad gan y prosiect. Bydd yn **amhosibl** i chi gael eich adnabod o'r dadansoddiad, gan y byddwn yn cyfuno eich data â data llawer o gleifion eraill

Pam na ofynnwyd i mi am ganiatâd i ddefnyddio fy ngwybodaeth?

Mae gennym gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd at ddiben yr ymchwiliad cyfrinachol hwn i storio a defnyddio gwybodaeth cleifion heb gydsyniad. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:

http://www.hra.nhs.uk/about-the-hra/ourcommittees/section-251/what-is-section-251/

A gaf i ofyn am beidio â defnyddio fy nata?

Gallwch, gallwch ofyn i ni ddileu eich data **ar unrhyw adeg** heb i hynny effeithio ar lefel y gofal rydych chi'n ei dderbyn, neu gallwch ddweud wrthym yn fwy cyffredinol nad ydych chi eisiau i'ch data gael eu defnyddio, rhag ofn iddynt gael eu dewis.

Os nad ydych chi (os ydych chi'n 16 oed neu'n hŷn) eisiau i'ch data gael eu defnyddio, gallwch roi gwybod i ni, neu os ydych chi o dan 16 oed*, gofynnwch i'ch rhiant neu ofalwr gysylltu â'r person isod, a bydd yn nodi na ddylid eu cynnwys os byddant yn cael eu dewis.

MARISA MASON
GROUND FLOOR, ABBEY HOUSE
74-76 ST JOHN STREET
LLUNDAIN, EC1M 4DZ
0207 2519060
mmason@ncepod.org.uk

** Yn ogystal, gall rhiant neu ofalwr gysylltu â ni ar ran person ifanc 16 oed neu hŷn os ydynt yn Ddirprwy Gofal a Lles a benodwyd gan lys i weithredu ar eu rhan.*

Pwy sy'n comisiynu a chyllido'r gwaith?

Mae gwaith NCEPOD wedi'i gomisiynu gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) ar ran y cyrff cyllido a restrir isod, a cheir cyllid ychwanegol gan ysbytai yn y sector annibynnol:

- GIG Lloegr
- Llywodraeth Cymru
- Adran Iechyd Gogledd Iwerddon
- Taleithiau Jersey
- Taleithiau Guernsey
- Llywodraeth Ynys Manaw

Beth ddylwn i ei wneud os credaf nad yw fy nata wedi'u defnyddio'n gywir?

Os oes gennych bryderon ynghylch y ffordd y mae eich data personol yn cael eu trin, cysylltwch â Marisa Mason fel y manylir uchod. Os ydych chi'n teimlo bod y mater yn ddigon difrifol, mae gennych hefyd yr hawl i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef yr awdurdod yn y DU sy'n gyfrifol am gyfraith

diogelu data. Gellir cysylltu â nhw dros y ffôn, 0303 123 1113, neu trwy eu gwefan: https://ico.org.uk/concerns/

Manylion cyswllt

Mae **NCEPOD** yn Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr: 1075588; ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant: 3019382

www.ncepod.org.uk